**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: TREFNIADAU GOFAL DYDD YN ARDALOEDD BLAENAU FFESTINIOG A CRICIETH

**PENDERFYNIAD**

- Fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dirwyn i ben defnydd Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog ac yn Encil y Coed, Criccieth ar gyfer darparu eu gwasanaethau gan nad oes gwasanaethau gofal dydd wedi eu cynnig yn Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog nag yn Encil y Coed, Cricieth ers cyn cyfnod Covid.

- Cefnogi bwriad yr Adran i barhau i gydweithio gyda grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i gefnogi unigolion yn yr ardaloedd uchod yn eu cartrefi a thrwy ddefnyddio a chefnogi datblygiad gwasanaethau amgen o fewn y cymunedau.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nid yw'r model traddodiadol o ddarparu gofal dydd yng Ngwynedd wedi ei addasu i gyfarch anghenion y Ddeddf a sicrhau beth sy'n bwysig i drigolion Gwynedd. Mae'r model presennol wedi bod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal ar gyfer pobl mewn adeiladau yn hytrach na chefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth i barhau i fynychu gweithgareddau cymunedol. Nid yw ein gwasanaethau gofal dydd bob amser yn llwyddo i gwrdd ag amcanion unigol a phersonol unigolion ac mae tuedd wedi bodoli o 'ffitio' pobol i wasanaethau.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 7: CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 o'r gyllideb refeniw, gan nodi bod rhagolygon o orwariant o £8.3 miliwn gan adrannau'r Cyngor, gyda 83% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant, a chefnogi'r camau mae'r Prif Weithredwr wedi eu cyflwyno i ymdrin â'r gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

- Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Aelodau Cabinet perthnasol i wneud nifer o drosglwyddiadau cyllideb angenrheidiol, heb gyfyngiad ar y gwerth, o fewn cyllidebau gwasanaethau yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu'r pwysau presennol, gan gynnwys yn y maes Anabledd Dysgu, Pobl hŷn, Anabledd Corff ac Iechyd Meddwl.

- Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol gwerth £201k i Gwmni Byw'n Iach sydd i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol terfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Cymeradwyo trosglwyddiad o £4,409k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

- Eithrio cymal 16.3.1.(C) o'r Rheoliadau Ariannol a pheidio caniatáu i adrannau gario unrhyw danwariant i'r flwyddyn ariannol nesaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 8: RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2024) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 ac a addaswyd ar 15 Hydref 2024 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
    - cynnydd o £166,000 mewn defnydd o fenthyca
    - cynnydd o £4,112,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
    - cynnydd o £420,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
    - cynnydd o £697,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 9: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

- Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2024/25 a blynyddoedd blaenorol.

- Cymeradwyo dileu un cynllun arbedion gwerth £146,910 perthnasol i 2025/26 yn y maes gwastraff yn yr Adran Amgylchedd, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 10: CYNLLUN YMATEB I DROSEDDU

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwyo a mabwysiadu y Cynllun Ymateb yn Atodiad 1.

- Galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau ynghlwm â'r troseddu difrifol hwn.

- Comisiynu'r Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i sefydlu a threfnu'r adnoddau a chapasiti staffio dros dro sydd eu hangen i wireddu cynnwys y Cynllun hwn gan ariannu o gronfeydd wrth gefn.

- Nodi fod y Cynllun Ymateb yn gynllun byw fydd angen ei adolygu'n rheolaidd ac yn y cyd-destun hwnnw gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi graffu y Cynllun fel rhan o'u Rhaglen waith.

- Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Plant, i wneud mân addasiadau golygyddol fel bo'r gofyn.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er fod nifer o'r ffrydiau gwaith a nodir yn y Cynllun Ymateb ynghlwm eisoes yn mynd rhagddynt, gofynnir i'r Cabinet fabwysiadu y Cynllun Ymateb yn ffurfiol er mwyn rhoi

sicrwydd ac eglurder fod ein ymateb i droseddu cyn bennaeth Ysgol Friars yn cael sylw priodol ac yn flaenoriaeth o'r radd uchaf i'r Cyngor.

Hanfod Cynllun Ymateb fel hwn yw ei fod yn ffurfiol ei natur, gan ei fod yn cyfeirio at nifer o faterion trefniadaethol. Ond, ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y genethod a'r merched ifanc a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas y Cynllun Ymateb hwn a phob cam sy'n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto, a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 11: TERFYNU CYTUNDEB PARTNERIAETH GWE

**PENDERFYNIAD**

- Terfynu'r gytundeb cydweithio presennol a thrwy hynny gadarnhau y bydd GwE, gan gynnwys Cyd-Bwyllgor GwE, yn dod i ben ar y 31 o Fai, 2025.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn adolygiad o gyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru mae argymhelliad wedi ei wneud i symud i fodel rhanbarthol ehangach o weithio. I'r perwyl hwnnw, mae'r Bwrdd Trosiannol wedi'i sefydlu i oruchwylio trefniadau trosglwyddo gwasanaethau GwE yn ôl i'r awdurdodau lleol yn Ngogledd Cymru. Er mwyn ffurfioli'r newid i'r trefniant o weithio mewn partneriaeth, mae gofyn i'r chwe Awdurdod gymeradwyo dod â'r cytundeb presennol (Gwasanaethau GwE) i ben ynghyd â diddymu Cyd-bwyllgor GwE.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 12: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 21 Ionawr 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 5 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 13: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.